


Y ddau sgil sydd
pwysicaf ar gyfer
astudiaethau yn y
dyfodol

Gan Undeg Jones



RHEOLI AMSER


Pam mae rheoli amser yn bwysig?


- ❖ Cynyddu effeitholrwydd
- ❖ Digon o amser i wneud y gwaith- helpu i flaenoriaethu tasgau
- ❖ Helpu i ddelio gyda straen (Simplilearn, 2022)

Pwy sy'n dweud fod rheoli amser yn bwysig?

Brad Aeon:

“Er y gall rheoli amser arwain at gynhyrchiant, mae ein canlyniadau’n awgrymu bod rheoli amser yn cael effaith llawer cryfach ar les, iechyd meddwl, a chael ymdeimlad o bwrpas mewn bywyd.” (Inverse, 2021)





Llythrennedd Digidol

Pam mae llythrennedd digidol yn bwysig?

- ❖ Yn gymorth i ddatrys problemau
- ❖ Galluogi myfyrwyr i fod yn greadigol
- ❖ Myfyrwyr mewn sefyllfa gwell i lwyddo
- ❖ Gallu addasu'n hawdd i ofynion newidiol cymdeithas (Adobe Blog, 2019)



Pwy sy'n dweud fod llythrennedd digidol yn bwysig?

Hauge a Payton:

“Mae rhyngweithiadau pobl â thechnolegau digidol yn lluosog, cyfoethog a chymhleth; mae amrywiaeth eang o arferion yn ymwneud â llythrennedd digidol.” (Small Blog on Networked Learning, 2014)





Diolch am wrando!



Rhestr Cyfeirnod

Adobe Blog (2019) 3 Reasons Students Need to Develop Digital Literacy

Available at: <https://blog.adobe.com/en/publish/2019/03/14/3-reasons-students-need-to-develop-digital-literacy>

(Accessed: 20 November 2022)

Australian Christian College (2019) Time management skills that improve student learning

Available at: <https://www.acc.edu.au/blog/time-management-skills-student-learning/>

(Accessed: 20 November 2022)

Crunchgrade (2022) The Benefits of Digital Literacy and How to Develop DL Skills

Available at: <https://www.crunchgrade.com/study-tips/benefits-of-digital-literacy/>

(Accessed: 20 November 2022)

Embibe(2022) Importance of Digital Literacy | Know How Digital Literacy Has Become Important

Available at: <https://www.embibe.com/exams/importance-of-digital-literacy/>

(Accessed: 21 November 2022)

Rhestr Cyfeirnod

Inverse (2021) Why Experts Say Our Ideas of Time Management Are All Wrong

Available at: <https://www.inverse.com/mind-body/you-likely-have-the-wrong-idea-about-time-management-researchers-say>

(Accessed: 21 November 2022)

Simplilearn (2022) Proven Time Management Tips and Strategies for Students

Available at: <https://www.simplilearn.com/tutorials/time-management-tutorial/best-time-management-tips-for-students>


(Accessed: 22 November 2022)

Small Blog on Networked Learning (2014) Digital Literacy or Digital Literacies?

Available at: <https://elnamortensen1.wordpress.com/2014/11/27/digital-literacy-or-digital-literacies/#:~:text=Hague%20and%20Payton%20stress%20that%20digital%20literacy%20is,wide%20array%20of%20practices%20involved%20in%20digital%20literacy>

(Accessed 22 November 2022)






Sut byddaf yn datblygu'r sgil o reoli amser?

Rwy'n gobeithio wrth ddatblygu'r sgil yma, byddaf yn dysgu sut i gynllunio'r dydd yn y dosbarth er mwyn sicrhau bod y plant yn gorffen ei gwaith ar amser. Yn ychwanegol, bydd rheoli amser o fewn y dosbarth yn sicrhau bod y plant yn gallu dysgu trwy gwahanol feysydd er enghraifft dysgu trwy thechnoleg am yr awr cyntaf wedyn canolbwyntio ar fathemateg yr ail awr. Credaf er mwyn llwyddo i wneud hyn, byddaf yn creu amserlen dyddiol er mwyn cynllunio beth yw cynllun y dydd a beth byddaf yn gobeithio cyflawni erbyn diwedd y dydd. I sicrhau byddaf yn cyflawni hyn, bydd angen cymorth wrth gynorthwyydd y dosbarth er mwyn gwneud yn siwr bod y disgyblion yn aros ar dasg ac i gynnig cymorth i'r disgyblion os mae angen.

Ffurf arall byddaf yn gallu datblygu'r sgil o reoli amser bydd blaenoriaethu tasgau. Bydd gwneud hyn yn sicrhau fy mod yn blaenoriaethu tasgau pwysig ac i gynllunio pa dasgau sydd angen fwy o sylw a pha rhai sydd angen fwy o amser i wneud. Bydd hyn yn bwysig er mwyn bod yn athrawes oherwydd bydd angen blaenoriaethu tasgau fel marcio gwaith y disgyblion.

Yn ychwanegol, ffurff arall byddaf yn gallu gwneud i ddatblygu'r sgil yma bydd i drefnu o flaen amser. Wrth wneud hyn bydd gwneud tasgau fel y gwersi, ffonio rhieni, cyfarfodydd gyda'r adran ac y rhieni cyn y wers yn sicrhau fod popeth wedi cael ei wneud a bod y diwrnod yn rhedeg yn haws. Hefyd, bydd rhestr o bethau mae angen gwneud yn gymorth i ddatblygu'r sgil oherwydd bydd popeth wedi cael ei wneud ar amser a cyn y wers.





Sut byddaf yn datblygu'r sgil o lythrennedd digidol?

Rwy'n gobeithio wrth ddatblygu'r sgil yma byddaf yn fwy hyderus yn gweithio ar wefannau gwahanol ar lein a hefyd i sicrhau bod y disgyblion yn cael y cyfle i ddatblygu sgiliau Tgch. Yn ychwanegol, bydd datblygu'r sgil o lythrennedd digidol yn y dosbarth yn galluogi'r plant i ddefnyddio eu sgiliau mathemateg a llythrennedd ar lein, sy'n gwneud dysgu yn fwy hwyl. Credaf i lwyddo i wneud hyn, byddaf yn ymchwilio i wahanol gwefannau i weld pa rai bydd orau i ddefnyddio yn y dosbarth, a hefyd i arbrofi gyda Word, Power point ac Excel er mwyn dangos i'r disgyblion sut y gallant gyflwyno eu gwaith mewn ffordd effeithiol. I wneud hyn bydd angen cymorth wrth rhieni'r disgyblion er mwyn sicrhau bod y plant yn cael ymarfer llythrennedd digidol yn ei cartrefi. Bydd hyn yn meddwl bydd y disgyblion yn dod yn fwy hyderus gyda llythrennedd digidol wrth wneud gwaith cartref ar Word er enghraifft.

Cofrestru ar gwrs ar lein yw ffurff arall i ddatblygu llythrennedd digidol. Bydd gwneud hyn yn fy ngalluogi i ddeall unrhyw feddalwedd a bydd hyn yn ddefnyddiol yn y dosbarth oherwydd byddaf yn gallu arwain y dosbarth trwy'r meddalwedd er mwyn iddyn nhw ymarfer eu sgiliau. Yn ogystal, bydd hyn yn gwneud y dysgu yn fwy hwyl gan fydd y disgyblion yn dysgu trwy ffurff gwahanol, hefyd, mae technoleg yn un o feysydd dysgu a phrofiad y Cwricwlwm newydd i Gymru.

Ffurf arall o ddatblygu'r sgil yma yw i wneud fy ngwaith ar wefannau fel Abode oherwydd mae e'n wefan sy'n cynnwys llawer o gyflwyniadau diddorol ac mae e'n fy ngalluogi i fod yn greadigol wrth feddwl am sut i gyflwyno darn o waith. Bydd hyn yn bwysig fel athrawes oherwydd bydd defnyddio gwefanau fel Adobe yn galluogi'r disgyblion i feddwl yn feirniadol ac i fod yn greadigol wrth wneud cyflwyniadau gwahanol fel fideo, poster neu lythyr er enghraifft.

